Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Gwaith Cwrs:

# Canllawiau i Fyfyrwyr

Gwaith cwrs yw unrhyw elfen o'ch cymhwyster sy'n gorfod cael ei asesu'n fewnol; hynny yw, wedi'i farcio gan eich athrawon ond mae'n cael ei anfon i'r bwrdd arholi ar gyfer cymedroli. Fel arfer nid yw gwaith cwrs yn cael ei wneud o dan amodau arholiad a gallai fod ar sawl ffurf wahanol.

Mae rhif uned y pwnc yn elfen o'r gwaith cwrs ac mae'n cyfrannu rhif% tuag at eich cymhwyster Safon Uwch terfynol.

Bydd eich darlithwyr yn esbonio gofynion y gwaith cwrs ynghyd â'r meini prawf asesu y bydd disgwyl i chi eu bodloni. Dylech sicrhau eich bod yn neilltuo cyfnod priodol o amser ar gyfer gwaith cwrs oherwydd mae'n cyfrannu at eich gradd derfynol, yn yr un ffordd y byddai arholiad a asesir yn allanol yn cyfrannu ati.

**Cyflwyno Gwaith:**

Dyma'r broses o gyflwyno'ch gwaith cwrs:

**Drafft 1**

Pan fyddwch chi'n cyflwyno'r drafft hwn, bydd eich athro/athrawes yn gallu adolygu'ch gwaith cwrs a rhoi cyngor cyffredinol er mwyn i chi ddeall y meini prawf asesu fydd yn rhoi modd i chi wneud newidiadau yn annibynnol.

**Ni fydd** yr adborth hwn yn:

- Fanwl na chynnig awgrymiadau penodol o ran sut i wella'r gwaith
- Nodi gwallau na hepgoriadau penodol
- Darparu fframiau ysgrifennu nac amlinelliadau o ran cyflwyno'r gwaith cwrs.

Y dyddiad cau ar gyfer Drafft 1 yw: **Dyddiad**

Os, am unrhyw reswm arbennig, na allwch gwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad hwnnw, dylech wneud cais am estyniad yn unol â [Pholisi Estyniad]() y Coleg. Nid oes sicrwydd y cewch estyniad ond os cewch un, sylwch na fydd y Dyddiad Cau Terfynol yn cael ei newid.

**Cyflwyniad Terfynol**

Ar ôl cyflwyno gwaith ar gyfer asesiad terfynol, **ni allwch ei adolygu**. Bydd ychwanegu at eich gwaith cwrs neu ddileu ohono ar y cam hwn yn golygu camymddwyn. Bydd eich athrawon nawr yn marcio'r darn o waith hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer eich Cyflwyniad Terfynol yw: **Dyddiad**

SAMPLE

**Ar ôl Cyflwyno Gwaith**

Pan fydd eich darlithwyr wedi marcio eich gwaith cwrs, byddant yn rhoi gwybod i chi am eich marciau cyn eu cyflwyno i'r corff dyfarnu.

Y dyddiad y byddwch yn derbyn eich marciau yw: **Dyddiad**

Ar y pwynt hwn, gallwch ofyn am adolygiad o'r marcio ar un o'r seiliau canlynol:

- Nid yw'r marciau a ddyfarnwyd yn rhoi digon o gredyd am fodloni'r meini prawf cyhoeddedig
- Gwall gweinyddol
- Nid yw'r marc a ddyfarnwyd yn cyd-fynd â'r safonau a osodwyd gan y ganolfan.

Yn y lle cyntaf, dylech drafod eich pryderon gyda'ch darlithydd fydd yn gallu rhoi cyngor a chymorth i chi.

Os ydych yn dal yn anhapus, yna gallwch ofyn am adolygiad pellach trwy lenwi'r ffurflen hon. Ond, dylech ddeall bod y marc a ddyfarnwyd gan eich darlithydd yn un dros dro oherwydd gallai'r broses gymedroli a gynhelir gan y corff dyfarnu pan gyflwynir y canlyniadau arwain at newid marc, naill ai i fyny neu i lawr.

Y dyddiad cau i chi wneud cais i adolygu'r marcio yw: **Dyddiad uchod + 5 diwrnod.**



SAMPLE